Ysgol Griffith Jones
Sanclêr

# ADRODDIAD BLYNYDDOL
# Y LLYWODRAETHWYR I RIENI
# 2021/22
# ANNUAL GOVERNORS REPORT
# TO PARENTS

**TYMOR YR HYDREF 2022**

Fel Cadeirydd y Llywodraethwyr, mae'n bleser mawr gennyf eich annerch yn Adroddiad Blynyddol y Llywodraethwr ar gyfer blwyddyn academaidd 2021/22.
Mae disgyblion bellach wedi cael y cyfle i gymryd rhan mewn nifer o wahanol ddigwyddiadau trwy gydol y flwyddyn, unwaith eto, o fewn amgylchedd yr ysgol ac fel rhan o weithgareddau allgyrsiol a chymdeithasol.

Croesawyd dwy athrawes newydd, sef Miss Carys Evans a Mrs Nerys Howells i'r ysgol. Ar ddiwedd tymor yr haf, ffarweliwyd â Mrs Anwen Thomas a diolchwn iddi am 30 mlynedd o wasanaeth yn Griffith Jones. Hefyd Mr Carwyn Richards, sydd wedi gadael i gymryd swydd yn Ysgol Gymraeg Castell-nedd.
Mae Mrs Mai Giles wedi derbyn secondiad, fel Pennaeth, i Ysgol Bro Brynach ac Ysgol Beca, a dymunwn yn dda iddi gan edrych ymlaen ati ddychwelyd i dîm Griffith Jones.

Diolch i'r Uwch Dîm Rheoli a'r holl staff sydd, o dan arweiniad y Pennaeth Mr Emyr Davies, yn ymdrechu'n barhaus i wella'r safonau academaidd, diwylliannol a chwaraeon uchel sydd eisoes yn cael eu mwynhau gan yr ysgol ac sy'n rhoi cyfleoedd o'r fath i ddisgyblion. Mae'n dyst i broffesiynoldeb ac ymrwymiad y staff i'r ysgol ein bod yn parhau i gynnal safonau uchel. Rhaid diolch i'm cydweithwyr ar y Corff Llywodraethol am eu cefnogaeth barhaus ac i'r Gymdeithas Rhieni ac Athrawon sy'n parhau â rhaglen o ddigwyddiadau codi arian sy'n gwneud cyfraniad gwerthfawr i gyllid yr ysgol.

Yn olaf, hoffwn ddiolch i chi am eich cefnogaeth barhaus i'r ysgol a manteisio ar y cyfle hwn i ddymuno Nadolig Llawen a 2023 llewyrchus ichi.

**AUTUMN TERM 2022**

As Chair of Governors, it is a privilege to address you as a forward to the Annual Governor's Report in respect of the academic year 2021/22.

Pupils have now had the opportunity to participate in numerous different events throughout the year, once more, both within the school environment and as part of extra-curricular activities and social events.

We welcomed Miss Carys Evans and Mrs Nerys Howells to our team of staff. At the end of the summer term, we said farewell to Mrs Anwen Thomas, and we thank her for 30 years of service at Griffith Jones. Also, Mr Carwyn Richards has left to take up a post at Ysgol Gymraeg Castell-nedd.
Mrs Mai Giles has accepted a secondment as Headteacher at Ysgol Bro Brynach and Ysgol Beca, to which we wish her well and await her return to the team at Griffith Jones.

My thanks to the Senior Management Team and all staff who, under the guidance of Headteacher Mr Emyr Davies, continually strive to improve on the high academic, cultural and sporting standards already enjoyed by the school and who afford pupils such opportunities. It is testament to the staff's professionalism and commitment to the school that we continue to maintain high standards. Thanks must go to my colleagues on the Governing Body for their continued support and to the PTFA who continue with a programme of fundraising events that make a valuable contribution to the school's finances.
Finally, I would like to thank you for your continued support of the school and take this opportunity to wish you a Merry Christmas and prosperous 2023.

**Mrs Lynnette Phillips**
**Cadeirydd y Llywodraethwyr / Chair of Governors**

# Y Corff Llywodraethol / The Governing Body

**CADEIRYDD Y LLYWODRAETHWYR / CHAIRPERSON OF GOVERNORS:**

Mrs Lynnette Phillips
Gilfach
Cwmbach
Whitland
Carms
SA34 0DN

**CLERC I'R LLYWODRAETHWYR / CLERK TO THE GOVERNORS:**

Swyddog Gweinyddol / Administrative Officer
Ysgol Griffith Jones
Heol yr Orsaf / Station Road
Sanclêr / St Clears
SA33 4BT

| **ENW** *NAME* | **STATWS** *STATUS* | **DYDDIAD TERFYNU** *TERM OF OFFICE EXPIRES* |
|---|---|---|
| Mr Emyr Davies | Pennaeth / Headteacher | |
| Cyng/Cllr Philip M Hughes | Llywodraethwr Awdurdod Addysg Lleol<br>Local Education Authority Governor | 22.01.24 |
| Mr Tim John | " | 31.03.23 |
| Mr Kevin Jenkins | " | 05.02.26 |
| Mrs Delyth Jenkins | Llywodraethwr Cymunedol<br>Community Governor | 27.05.24 |
| Mrs Lynnette Phillips | " | 04.05.25 |
| Mrs Carly Jones | " | 23.03.25 |
| Lle gwag / Vacancy | Llywodraethwr Cymunedol Ychwanegol<br>Additional Community Representative | |
| Mrs Anwen Pearce | Rhiant Lywodraethwr<br>Parent Governor | 31.08.22 |
| Mrs Caroline Jones | " | 25.11.22 |
| Mrs Helen Thomas | " | 19.03.25 |
| Mrs Carwen Morgan-Davies | " | 23.03.25 |
| Mrs Mai Giles | Athro Lywodraethwr<br>Teacher Governor | 02.04.23 |
| Mrs Amanda Jones | Staff Lywodraethwr<br>Staff Governor | 26.02.25 |

**Cadeirydd/Chairperson** **Mrs Lynnette Phillips**
**Is-Gadeirydd/Vice-Chairperson** **Mr Kevin Jenkins**

Roeddem yn drist iawn bod un o'n Llywodraethwyr Cymunedol, Mr Ian Richards wedi marw ym mis Tachwedd 2021. Roedd yn gefnogol iawn ac wedi helpu'r ysgol i godi arian. Mae ein meddyliau gyda'i deulu.

We were very much saddened that one of our Community Governors, Mr Ian Richards, passed away in November 2021. He was very supportive and helped the school raise money. Our thoughts are with his family.

| ***Nifer o ddisgyblion – Trefniant Dosbarthiadau (Gorffennaf 2022)*** ***Pupil Numbers – Class Organisation (July 2022)*** | | | |
|---|---|---|---|
| **Categori A / A Category** | | | |
| **DOSBARTH CLASS** | **ATHRO TEACHER** | **Nifer No of pupils** | **Blynyddoedd Years** |
| PWYLL | Mrs Mai Giles | 25 | 6 |
| CULHWCH | Mrs Enfys Thomas | 23 | 5 |
| BRANWEN | Mr Carwyn Richards | 25 | 4 |
| RHIANNON | Miss Carys Evans | 30 | 3 |
| ARTHUR | Mrs Ceirios Jenner | 28 | 2 |
| GWENLLIAN | Mrs Eleri Lewis | 25 | 1 |
| BECA | Mrs Kay Jenkins | 27 | Derbyn & 1 Reception & 1 |
| DEWI | Mrs Jo Mason / Mrs Wendy Griffiths | 24 | Derbyn / Reception |
| NON | Mrs Llinos Griffiths | 48 | Meithrin / Nursery |
| **Categori B / B Category** | | | |
| **DOSBARTH** | **ATHRO** | **Nifer** | **Blynyddoedd** |
| MYRDDIN | Mr David Toms | 25 | 5 + 6 |
| Hywel | Miss Kate Evans | 21 | 4 |
| OLWEN | Mrs Rhian Taylor | 24 | 2 + 3 |

Trosglwyddodd 51 disgybl i ysgolion uwchradd ym mis Gorffennaf: 15 i Ysgol Bro Myrddin, 34 i Ysgol Dyffryn Taf a 2 i Ysgol y Frenhines Elizabeth.
Mae 22 disgybl meithrin wedi cofrestri i ddechrau yn yr ysgol ym mis Medi 2022.

51 pupils transferred to secondary schools in July: 15 to Bro Myrddin, 34 to Dyffryn Tâf and 2 to Queen Elizabeth High School.
22 new pupils have registered for the nursery class at the school for September 2022.



**Cynllun Datblygu Ysgol (CDY)**

Mae'r CDY yn gosod sail i fentrau'r ysgol ac yn anelu at wella meysydd penodol. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf blaenoriaethwyd yr ardaloedd canlynol:

- Rydym wedi datblygu dulliau addysgu ac asesu effeithiol o ddysgu'n annibynnol yn unol â'r cwricwlwm newydd.
- Rydym wedi darparu her a gwahaniaethu effeithiol i bob disgybl, er mwyn sicrhau eu bod yn cyrraedd eu llawn botensial.
- Rydym wedi gweithredu ymhellach egwyddorion y Cyfnod Sylfaen gan gynnwys gwella cyfleoedd ar gyfer darpariaeth awyr agored.
- Rydym wedi datblygu darpariaeth iaith a llythrennedd ar draws yr ysgol er mwyn codi safonau, gyda ffocws arbennig ar lafaredd a darllen.
- Lleihau Effaith Tlodi ar ddisgyblion sy'n derbyn PYDd

Cefnogwyd Cynllun Datblygu'r Ysgol gan y canlynol:

- Grantiau amrywiol a ddarperir gan Lywodraeth Cymru drwy'r Awdurdod Lleol
- Arian CRAaFf
- Grant Datblygu Disgyblion

**School Development Plan (SDP)**

The SDP forms the basis of the school's initiatives and is aimed at improvement in specific areas. During the last year the following areas have been prioritised:

- We have developed effective teaching and assessment approaches to independent learning in line with the new curriculum.
- We have provided effective challenge and differentiation for all pupils, to ensure they reach their full potential.
- We have further implemented the principles of the Foundation Phase including enhancing opportunities for outdoor provision.
- We have developed language and literacy provision across the school in order to raise standards, with a particular focus on oracy and reading.
- Reduce the Impact of Poverty on pupils in receipt of FSM

The School Development Plan is supported by:

- Various grants provided by the Welsh Government via the Local Authority
- PTFA Funding
- Pupil Development Grant



**Gosod Targedau**

Mae'r ysgol yn parhau i ymgymryd â gofynion gosod targedau. Mae'r disgyblion yn cael eu tracio a gwneir pob ymdrech i gyrraedd targedau unigolion.

Mae'r Adroddiadau Blynyddol i rieni yn nodi'r meysydd lle mae angen gwelliant, yn ogystal â Phroffil Un Tudalen ar gyfer pob dysgwr.

**Target Setting**

The school continues to meet its target setting requirements. All pupils are tracked to ensure that every effort is made to attain individual objectives.

Annual Reports to parents identify areas of improvement, as well as One Page Profiles for each learner.

**Lwfans y Pen**

£20 y disgybl oedd lwfans y pen. Mae'r Gymdeithas Rieni unwaith eto wedi cytuno byddant yn cyfrannu i'r gronfa i alluogi adnoddau digonol ym mhob maes o'r cwricwlwm.

**Capitation**

The capitation allowance was £20 per pupil. The PTFA have agreed that they will supplement this sum to enable all curricular areas to be adequately resourced.

**Diogelwch Ysgol**

Adolygir y systemau diogelwch yn rheolaidd gan Staff Uwch yr ysgol a Rheolwr y Safle.

Arolygwyd Diogelu o fewn yr ysgol gan yr Awdurdod Lleol ac Estyn yn 2020 a nodwyd bod systemau Diogelu yn gryf.

**School Security**

School security is reviewed by Senior Staff and Site Manager continuously.

The Local Authority and Estyn have inspected Safeguarding within the school in 2020 and systems were found to be strong.

**Iaith**

Yn unol â Pholisi Iaith Awdurdod Addysg Sir Gaerfyrddin mae Ysgol Griffith Jones wedi ei chlustnodi yn ysgol ddwy ffrwd yn darparu ar gyfer plant Meithrin, Babanod ac Iau o 3-11 oed.

**Ffrwd Gymraeg -** Dosbarthiadau yn derbyn eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg.

**Ffrwd Saesneg -** Dosbarthiadau yn derbyn eu haddysg yn bennaf trwy gyfrwng Saesneg a Chymraeg yn cael ei ddysgu fel ail iaith.

Cymraeg yw'r prif gyfrwng addysgu yn y Dosbarthiadau Meithrin, Derbyn a Blwyddyn 1. O Flwyddyn 2 ymlaen mae rhieni yn dewis naill ai addysg yn y Ffrwd Gymraeg neu'r Ffrwd Saesneg.

**Language**

In accordance with Carmarthenshire Education Authority's Language Policy, Ysgol Griffith Jones has been designated a dual stream school catering for Nursery, Infants and Junior pupils of the age range 3-11 years old.

**Welsh Stream -** Classes are taught through the medium of Welsh.

**English Stream -** Classes are taught mainly through th medium of English with Welsh taught as a second language.

The school Nursery, Reception and Year 1 Classes hav Welsh as the main medium of instruction.

From Year 2 onwards parents are given the choice of Welsh Stream or English Stream education.

Mae'r Awdurdod Lleol wedi cynnal ymgynghoriad i Bolisi Iaith yr ysgol. Bydd y dewis o ffrwd Saesneg yn newid i flwyddyn 3 ym Medi 2022

This will change to Year 3 in September 2022, following a consultation of the Language Policy in the Foundation Phase by the Local Authority



**Prosbectws**

Adolygwyd y prosbectws. Mae'r ddogfen newydd yn awr ar gael ar ein gwefan.

**Prospectus**

The Prospectus has been reviewed. The document is now available on our website.

**Anghenion Addysgol Ychwanegol (AAY)**

Mae'r system ar gyfer cefnogi plant a phobl ifanc ag anghenion addysgol arbennig ac anabledd yng Nghymru yn newid. Mae Llywodraeth Cymru yn cyflwyno system fwy hyblyg ac ymatebol o ddiwallu anghenion plant a phobl ifanc ag anghenion addysgol arbennig neu anableddau ac mae'n ymdrechu i ddarparu system addysg gwbl gynhwysol ar gyfer dysgwyr Cymru.Mae'r ysgol yn gweithredu'r gofynion newydd.

Ar hyn o bryd mae 85 o ddisgyblion yn cael cymorth, naill ai ar ffurf Darpariaeth Dysgu Cyffredinol neu Ddarpariaeth Dysgu Ychwanegol.

**Additional Learning Needs (ALN)**

The system for supporting children and young people with special educational needs and disability in Wales is changing. The Welsh Government is bringing in a more flexible and responsive system of meeting the needs of children and young people with special educational needs or disabilities and is striving to deliver a fully inclusive education system for learners. The school is implementing the new requirements.

There are currently 85 pupils receiving support, either in the form of Universal Learning Provision or Additional Learning Provision.

**Disgyblion Anabl**

Mae gan yr ysgol nifer fechan o ddisgyblion ag anabledd amrywiol. Mae'r disgyblion yma wedi eu hintegreiddio'n llwyddiannus i'r brif-ffrwd ac mae'r Awdurdod Lleol yn sicrhau bod adnoddau digonol mewn lle i'w darparu â chyfleoedd cyfartal. Gwnaed archwiliad o ddarpariaeth yr ysgol ar gyfer disgyblion ag anabledd a ffurfiwyd Cynllun Hygyrchedd a'i weithredu.

**Disabled Pupils**

The school has a small number of pupils with different disabilities. The pupils are integrated successfully into mainstream and the Local Education Authority ensures adequate resources are in place to provide them with equal opportunities. An audit of the school's provision for disabled pupils has been carried out and an Accessibility Plan formulated and implemented.

## Cyfleusterau Toiledau

Mae toiledau penodol ar gael i ddisgyblion mewn adrannau gwahanol yr ysgol. Yn yr adran dan 5 mae toiledau cymysg, toiledau i fechgyn a merched i ddosbarthiadau 1 a Derbyn, toiledau ar wahân eto i ddisgyblion Blynyddoedd 3 a 4 a thoiledau ar gyfer bechgyn a merched Blynyddoedd 5 a 6. Mae yna 2 toiled ar gyfer plant ag anabledd.

## Toilet Facilities

There are specific toilets for the under 5's within their classes. Pupils in years 1 and Reception have separate toilets near the main entrance. Pupils in years 3 and 4 have toilets in the main corridor, whilst pupils in years 5 and 6 have their own facilities outside their classes. There are 2 disabled toilets.



## Cwricwlwm ac Asesu

Mae **pedwar diben** wrth wraidd ein cwricwlwm sy'n rhoi'r cyfle i bob dysgwr ddatblygu i fod:

- yn **ddysgwyr uchelgeisiol, galluog,** sy'n barod i ddysgu drwy gydol eu hoes;
- yn **gyfranwyr mentrus, creadigol,** sy'n barod i chwarae eu rhan yn llawn yn eu bywyd a'u gwaith;
- yn **ddinasyddion egwyddorol, gwybodus,** yng Nghymru a'r byd;
- yn **unigolion iach, hyderus,** sy'n barod i fyw bywyd gan wireddu eu dyheadau fel aelodau gwerthfawr o gymdeithas.

Gweithia pob un yn gydwybodol er mwyn sicrhau'r gorau ar gyfer yr holl ddisgyblion. Rydym yn tracio cynnydd disgyblion gan ddefnyddio ystod o strategaethau.

Ein nod yw cynnig addysg a gofal o'r safon uchaf mewn awyrgylch hapus, caredig, gweithgar a diogel fel bod pob plentyn, beth bynnag fo'i allu, yn cyrraedd ei lawn botensial. Rhoddir pwyslais ar ddysgu medrau sylfaenol llythrennedd, rhifedd a TGCh a phwysleisir pwysigrwydd eu gwneud yn berthnasol ac yn

## Curriculum and Assessment

There are **four purposes** at the heart of the curriculum, that support the learner to be:

- **ambitious, capable learners,** ready to learn throughout their lives;
- **enterprising, creative contributors**, ready to play a full part in life and work;
- **ethical, informed citizens,** of Wales and the world;
- **healthy, confident individuals**, ready to lead fulfilling lives as valued members of society.

All staff work conscientiously to ensure the best education for all our pupils. We track pupils' progress using many strategies.

Our aim is to provide the highest quality care and education in a happy, caring, active and safe environment to enable all children, whatever their ability, achieve their potential. Emphasis is placed on learning the basic skills of literacy and numeracy and the importance of making them relevant and meaningful to the

ystyrlon i'r plentyn. Mae'n bwysig gwneud y plentyn yn ymwybodol o'i amgylchfyd, ei gymuned, ei wlad a'i fyd.

Trwy ddefnyddio dulliau dysgu sydd wedi selio ar themâu, mae strwythur ein cwricwlwm yn cynnwys **chwe Maes Dysgu a Phrofiad**. Mae pob un o'r Meysydd Dysgu a Phrofiad yn cyfrannu mewn ffordd bendant a phenodol at ddatblygu pedwar diben y cwricwlwm. Gyda'i gilydd, maent yn diffinio ehangder ein cwricwlwm.
Mae'r profiadau addysgiadol i ni'n cynnig yn rhan annatod o'n cwricwlwm, sy'n ehangu gorwelion ein plant, yn symbylu eu dychymyg ac yn hybu mwynhad wrth ddysgu.

**Y chwe maes dysgu a phrofiad** yw:

- Iaith, llythrennedd a chyfathrebu;
- Mathemateg a rhifedd;
- Gwyddoniaeth a thechnoleg;
- Celfyddydau mynegiannol;
- Iechyd a lles;
- Dyniaethau (gan gynnwys Addysg Grefyddol).

Darperir cwricwlwm sy'n sicrhau fod pob plentyn yn tyfu i fod yn ymwybodol o'r diwylliant Cymraeg a'r etifeddiaeth sydd ynghlwm â hyn.

child. It is important to make the children aware of their environment, their community, their country and the world.

By using a teaching and learning method which is based on themes, the structure of our curriculum contains **six Areas of Learning and Experience.** Each one of these Areas of Learning and Experience make distinct and strong contributions to developing the four purposes of the curriculum. Together, they define the breadth of the curriculum.
The wealth of educational experiences form an integral part of the curriculum, to broaden the children's horizons, stimulate their imagination and promote enjoyment in learning.

**The six Areas of Learning and Experience** are:

- Languages, literacy and communication;
- Mathematics and numeracy;
- Science and technology;
- Expressive arts;
- Health and well-being;
- Humanities (including Religious Education).

We provide a curriculum that ensures that every child develops an awareness of Welsh culture and its associated heritage.



**Profion Llythrennedd a Rhifedd**

Mae disgyblion o flwyddyn 2 i 6 yn sefyll profion safonedig darllen a rhifedd (rhif a rhesymu) Llywodraeth Cymru yn ystod tymor yr haf.

**Literacy and Numeracy tests**

Pupils from year 2 to year 6 sit Welsh Government National Numeracy and Literacy tests during the summer term.

**Ysgolion Uwchradd**

Mae Ysgol Griffith Jones yn aelod o deuluoedd Ysgolion Bro Myrddin, Caerfyrddin a Dyffryn Tâf, Hendygwyn.

**Secondary Schools**

Ysgol Griffith Jones is a member of the Ysgol Bro Myrddin, Carmarthen, and Ysgol Dyffryn Taf, Whitland, family of schools.



**Campau'r Ysgol**

- Cododd y disgyblion £406 i Blant Mewn Angen a daethant i'r ysgol wedi gwisgo yn eu dillad eu hunain.
- Cymerodd y disgyblion ran yn Eisteddfod Gylch yr Urdd. Enillwyd 7 eitem i ddigwyddiad y Sir.
- Cymerodd disgyblion ran yn yr Eisteddfod Sir gan ennill 4 ail safle a 3 trydydd safle.
- Ein timau 'Cwis Dim Clem' enillodd y cystadlaethau ardal.
- Mae'r disgyblion wedi mwynhau mwy o gyfleoedd Dysgu yn yr Awyr Agored eleni.
- Ymwelodd disgyblion Blwyddyn 6 â Chanolfan Addysg Awyr Agored Pentywyn a mwynhau 3 diwrnod llawn hwyl o weithgareddau dringo, abseilio, gwifren wib a môr.
- Mae dosbarthiadau wedi ymweld ag atyniadau lleol i gyfoethogi eu gwaith thema.

**School Achievements**

- Pupils raised £406 for Children in Need and came to school dressed in their own clothes.
- Pupils participated in the Urdd Local Eisteddfod. 7 items won through to the County event.
- Pupils participated in the County Eisteddfod winning 4 second places and 3 third places.
- Our 'Cwis Dim Clem' teams won the area competitions.
- Pupils have enjoyed a greater number of Outdoor Learning opportunities this year.
- Year 6 pupils visited Pendine Outdoor Education Centre and enjoyed a fun filled 3 days of climbing, abseiling, zip-wire and sea activities.
- Classes have visited local attractions to enhance their theme work.
- 2 pupils won medals in the Urdd's Art & Craft competitions in the National Eisteddfod – Isobel Durbridge and Naomi Miller.

- Enillodd 2 ddisgybl fedalau yng nghystadleuaeth Celf yr Urdd yn yr Eisteddfod Genedlaethol – Isobel Durbridge a Naomi Miller.
- Bu ein côr yn cymryd rhan yn Gŵyl Canol Dre unwaith yn rhagor. Enillodd ein disgyblion lawer o wobrau yn y cystadlaethau Celf.
- Bu disgyblion Blwyddyn 6 yn cymryd rhan mewn Gwasanaeth Gadael.

- Our choir took part in Gŵyl Canol Dre once more. Our pupils won many prizes in the Art competitions.
- Year 6 pupils took part in a Leavers' Service.




**Campau Chwaraeon**

- Bu ein Llysgenhadon Efydd Ifanc yn arwain clybiau chwaraeon i'w cyd-ddisgyblion.
- Mae'r disgyblion wedi cystadlu yng nghystadlaethau pêl-droed a rygbi'r Urdd. Daeth ein merched yn ail yn y rygbi.
- Mwynhaodd y disgyblion gymryd rhan yn ein diwrnod mabolgampau ysgol flynyddol. Gwahoddwyd rhieni i fynychu eleni.

**Sporting Successes / Participation**

- Our Bronze Young Ambassadors led sports clubs for fellow pupils.
- Pupils have competed in Urdd football and rugby competitions. Our girls were runners-up in the rugby.
- Pupils enjoyed participating in the annual school sports day. Parents were invited to attend this year.

**Cysylltiadau â'r Gymuned**

1. Partneriaeth â: Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant, Caerfyrddin; Colegau Sir Gâr a Sir Benfro.
2. Gweithgareddau cyswllt ag Ysgol Bro Myrddin ac Ysgol Dyffryn Taf.
3. Ymwelydd Iechyd yr Ysgol.
4. Swyddog yr Heddlu PC Cath Williams yn gweithio'n agos â'r ysgol.
5. Lleng Brydeinig Frenhinol.
6. Nyrs yr ysgol.

**Community Links**

1. Partnerships with University of Wales Trinity Saint David, Carmarthen; Swansea, Carmarthenshire and Pembrokeshire Colleges.
2. School liaison activities with Ysgol Bro Myrddin and Ysgol Dyffryn Taf.
3. Health Professionals visit school.
4. Police Officer PC Cath Williams works closely with school.
5. Royal British Legion.
6. The School Nurse.

**Presenoldeb**

Oherwydd effaith Covid19 nid oes gofyn i'r ysgol adrodd yn ôl am bresenoldeb eleni.

**Attendance**

Due to the continued effects of Covid19 there was no requirement to report attendance figures this year.

**Hybu bwyta ac yfed yn iach**

Gweithia'r ysgol yn galed i hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach.
Mae yna ddŵr yfed i'w gael ym mhob dosbarth.
Byddwn yn parhau i godi ymwybyddiaeth yn ystod y flwyddyn academaidd 2022-2023 trwy negeseuon, gwasanaethau, gwersi, gweithgareddau tu allan i'r dosbarth, siaradwyr gwadd a gwefan yr ysgol.
Yr ydym wedi ennill 5 gwobr Ysgolion Iach.

**Promoting healthy eating and drinking**

The school works hard to promote healthy eating and drinking.
There is clean drinking water available in each class.
We will continue to raise awareness during the 2022-2023 academic year through messages, whole school assemblies, lessons, outdoor activities, guest speakers and the school website.
We have won all 5 Healthy Schools' awards.

**Cyfarfod Blynyddol Llywodraethwyr a Rhieni**

Ni chafwyd cyfarfod blynyddol eleni.

**Annual General Meeting – Parents/Governors**

No meeting was held this year.

***Dymuna'r Llywodraethwyr a'r Pennaeth ddiolch i holl staff yr ysgol am eu gwaith cydwybodol yn ystod y flwyddyn a diolch hefyd i'r rhieni am eu cefnogaeth cyson.***

***The Governors and the Headteacher wish to thank all members of staff for their conscientious work throughout the year and also to the parents for their continued support.***



Cyngor Sir Gâr Carmarthenshire County Council

EICH CYNGOR arleinamdani
www.sirgar.llyw.cymru

YOUR COUNCIL doitonline
www.carmarthenshire.gov.wales

**2384** **Ysgol Griffith Jones**

| Annwyl Bennaeth | | Dear Headteacher |
|---|---|---|
| Gwelir isod crynodeb sefyllfa ariannol terfynol eich ysgol ar gyfer 2021/22. | | Please see below a summary of your school's final outturn position for 2021/22. |
| | £ | |
| Gwariant Net 2021/22 | 1,058,395 | Net Expenditure 2021/22 |
| Dyraniad Ariannu yn ôl Fformwla 2021/22 | -1,149,676 | Formula Funding Allocation 2021/22 |
| Arian Wrth Gefn a Ddygwyd Ymlaen o 2020/21 | -158,116 | Surplus Brought Forward from 2020/21 |
| Arian Wrth Gefn yn Cario Drosodd i 2022/23 | -249,397 | Surplus Carried Forward to 2022/23 |

Yn gywir / Yours sincerely

**Gareth Morgans**
Cyfarwyddwr Addysg a Phlant / Director of Education and Children


**GARETH MORGANS B Ed. M. Sc**
Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Plant
Adran Addysg a Phlant, Adeilad 2, Parc Dewi Sant,
Heol Ffynnon Job, Caerfyrddin, Sir Gaerfyrddin. SA31 3HB
Director of Education and Children's Services
Department for Education and Children,
Building 2, St. David's Park, Jobs Well Road,
Carmarthen, Carmarthenshire. SA31 3HB



*Mae Cyngor Sir Caerfyrddin yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg neu yn Saesneg*
*Carmarthenshire County Council welcomes correspondence in Welsh or English*

BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE

## CYNGOR SIR CAERFYRDDIN
## CARMARTHENSHIRE COUNTY COUNCIL

### *TYMHORAU A GWYLIAU YSGOL - BLWYDDYN ACADEMAIDD 2021/2022*

| | | **Gwyliau Hanner Tymor** | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Tymor** | **Dechrau'r Tymor** | **Dechrau** | **Diwedd** | **Diwedd Tymor** | **Dyddiau** |
| **Hydref 2021** | Dydd Iau 2il Medi | Dydd Llun 25ain Hydref | Dydd Gwener 29ain Hydref | Dydd Mawrth 21ain Rhagfyr | 74 |
| **Gwanwyn 2022** | Dydd Mawrth 4ydd Ionawr | Dydd Llun 21ain Chwefror | Dydd Gwener 25ain Chwefror | Dydd Gwener 8fed Ebrill | 64 |
| **Haf 2022** | Dydd Llun 25ain Ebrill | Dydd Llun 30ain Mai | Dydd Gwener 3ydd Mehefin | Dydd Mawrth 19eg Gorffennaf | 56 |
| Dyddiau HMS Penodol: Dydd Mercher, Medi 1af, 2021 | | | | | 1 |
| **Cyfanswm** | | | | | **195** |

O.N. Gwener y Groglith: 15fed Ebrill 2022 Gŵyl Fai: 2il Mai 2022

### *SCHOOL TERMS AND HOLIDAYS - ACADEMIC YEAR 2021/2022*

| | | **Half Term Holiday** | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Term** | **Term Begins** | **Begins** | **Ends** | **Term Ends** | **Days** |
| **Autumn 2021** | Thursday 2nd September | Monday 25th October | Friday 29th October | Tuesday 21st December | 74 |
| **Spring 2022** | Tuesday 4th January | Monday 21st February | Friday 25th February | Friday 8th April | 64 |
| **Summer 2022** | Monday 25th April | Monday 30th May | Friday 3rd June | Tuesday 19th July | 56 |
| Designated INSET Days: Wednesday, 1st September 2021 | | | | | 1 |
| **Total** | | | | | **195** |

N.B. Good Friday: 15th April 2022 May Day: 2nd May 2022